Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Arweiniad ar weithio gartref yn Estyn

Tudalen Wybodaeth

Rheolaeth fersiwn

Fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Sylwadau
Fersiwn 1.0	Meurig Chapple	Medi 2009	Fersiwn terfynol yn dilyn ymgynghoriad

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Tîm Adnoddau Dynol

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2009

Dyddiad adolygu wedi'i gynllunio: Medi 2012

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r polisi hwn at:

Adnoddau Dynol
Estyn
Anchor Court
Keen Road
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy neges e-bost at HumanResources@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau Estyn eraill ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn 2009, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail anabledd, rhyw na hil.

Cynnwys

Adran 1 Cyflwyniad 1

Beth yw gweithio gartref?
Arweiniad at gyfer pwy yw hwn?
Agwedd Estyn at weithio gartref

Adran 2 Materion i'w hystyried ynghylch y posibilrwydd o weithio gartref 2

Effaith ar gyflwyno gwasanaeth a staff arall
Addasrwydd ymgeisydd ar gyfer gweithio gartref

Adran 3 Gwneud i'r trefniant gweithio gartref lwyddo 4

Cyfrifoldebau'r sawl sy'n gweithio gartref
Cyfrifoldebau rheolwyr llinell
Asesu risg
Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch y sawl sy'n gweithio gartref
Diogelwch personol
Damweiniau, anafiadau, salwch a digwyddiadau bron â digwydd
Cymorth cyntaf
Mynychu pwyllgorau a chyfarfodydd hyfforddi
Oriau gwaith
Cysylltu â'r sawl sy'n gweithio gartref
Llinellau ffôn
Diogelwch ac offer TGCh
Darparu dodrefn ac offer arall
Anghenion nwyddau swyddfa/papur
Offer trydanol ac offer eraill yn y cartref
Yswiriant
Cytundebau morgais a thenantiaeth
Treth y cyngor, ardrethi busnes a threth enillion cyfalaf
Gwyliau blynyddol
Absenoldeb salwch
Trefniadau gofal
Symud tŷ

Adran 1: Cyflwyniad

Beth yw gweithio gartref?

1.1 At ddiben yr arweiniad hwn, mae gweithio gartref yn Estyn yn cael ei ddiffinio fel trefniant sy'n golygu bod gweithwyr wedi eu lleoli yn eu cyfeiriad cartref a rhoddir offer iddynt sy'n eu galluogi i weithio gartref yn effeithiol. Dan y trefniadau hyn, disgwylir i weithwyr weithio gartref, pan nad ydynt yn arolygu nag unrhyw fusnes swyddogol arall rywle arall ac na fydd desg wedi ei neilltuo ar eu cyfer yn un o swyddfeydd Estyn. Mae'n bosibl y bydd nifer o ddesgiau i'w rhannu ar gael yn un o swyddfeydd Estyn at ddefnydd achlysurol gan staff gweithio gartref, ond byddant yn cael eu dosbarthu ar sail y cyntaf i'r felin.

Arweiniad at gyfer pwy yw hwn?

1.2 Mae'r arweiniad hwn yn cynnig cyngor i weithwyr a'u rheolwyr llinell ar y materion hynny y gallant eu hwynebu os cytunwyd ar drefniant gweithio gartref fel rhan o gais gweithio hyblyg a sut i sicrhau bod cais llwyddiannus yn gweithio'n ymarferol.

Agwedd Estyn at weithio gartref

1.3 Mae Polisi Gweithio Hyblyg Estyn yn nodi ein hagwedd at weithio gartref. Dylid darllen y polisi a'r arweiniad hwn yn drylwyr cyn i unrhyw aelod o'r staff gyflwyno cais gweithio gartref neu unrhyw reolwr llinell ystyried cais tebyg, a dylid dilyn ei ddarpariaethau os cymeradwyir cais.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Adran 2: Materion i'w hystyried ynghylch y posibilrwydd o weithio gartref

2.1 Pan fydd gweithiwr yn ystyried gwneud cais i weithio gartref dylai ef/hi ystyried:

i effaith posibl gweithio gartref ar ddarparu gwasanaeth a staff arall yn Estyn; ac
ii a fyddai'r ymgeisydd yn addas ar gyfer gweithio gartref.

Effaith ar ddarparu gwasanaeth a staff arall

2.2 Wrth ystyried os yw'r swydd yn addas ar gyfer gweithio gartref, rhaid ystyried y ffactorau canlynol cyn cyflwyno cais;

i beth fydd yr effaith ar anghenion gwasanaeth neu alwadau cwsmeriaid?
ii pa effaith fydd gweithio gartref yn ei gael ar effeithiolrwydd y swyddfa a'r gwasanaeth?
iii a fydd hi'n bosibl i'r ymgeisydd ymgymryd â'r gwaith yn effeithiol yn amgylchedd y cartref?
iv a fydd gan yr ymgeisydd le addas gartref ar gyfer cefnogi gweithio gartref?
v a fydd amgylchedd gwaith yr ymgeisydd yn rhydd o bethau eraill a fydd yn tynnu sylw?
vi beth yw'r goblygiadau o ran arolygu/monitro'r sawl sy'n gweithio gartref – a yw'r unigolyn yn ddigon hunan-ddisgybledig ac yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth agos?
vii sut bydd Estyn a'r ymgeisydd yn sicrhau bod ganddo/ ganddi fynediad at ffeiliau wrth ystyried yr arweiniad ar reoli cofnodion sydd i'w cael yn WM 144/05 ?
viii a yw gweithio'n agos gyda'r tîm neu gydweithwyr mewn amgylchedd swyddfa'n elfen allweddol o waith yr ymgeisydd?
ix beth yw'r goblygiadau ar gyfer aelodau'r tîm ac eraill yn Estyn?
x oes angen i rai o dîm y sawl sy'n bwriadu gweithio gartref fod wedi eu lleoli yn y swyddfa er mwyn cynnal darpariaeth gwasanaeth effeithiol? ;
xi a fydd angen adolygu gweithgareddau gwaith yr unigolyn, neu eu newid, er mwyn hwyluso gweithio gartref ac os felly beth fydd y goblygiadau i'w gydweithwyr ac Estyn?
xii os cytunir ar weithio gartref pa drefniadau sydd angen iddynt fod ar gael er mwyn cadw mewn cyswllt â'r rheolwyr llinell os cytunir ar weithio gartref?

Addasrwydd ymgeisydd ar gyfer gweithio gartref

2.3 Ynghyd ag ystyried y ffactorau a allai ddylanwadu ar ddarparu gwasanaeth ym mharagraff 2.2, dylai'r ymgeisydd hefyd ystyried os yw ei amgylchedd ef/ ei hamgylchedd hi'n cynnig lle addas ar gyfer gweithio, i storio offer perthnasol ac os yw ef neu hi'n gymwys i weithio gartref. Er mwyn i'r sawl sy'n gweithio gartref weithio'n effeithiol, dylent alli dangos i'w rheolwyr llinell eu bod yn gallu:

iii gorffen gwaith gan ddefnyddio blaengaredd ac o fewn canllawiau wedi'i sefydlu;
iv ymdopi â'r unigrwydd cymdeithasol a proffesiynol wrth weithio gartref a bod yn hunanddibynnol;

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

v ysgogi eu hunain a chael digon o hunangyfeiriad i gwrdd â therfynau amser;
vi rheoli eu hamser yn effeithiol;
vii yn medru gweithio'n hyblyg a dangos mentergarwch wrth gyflawni'r allbwn a gytunwyd arno gyda'r rheolwr llinell; ac
viii yn medru cyfathrebu'n dda dros y ffôn ac yn ysgrifenedig.

2.4 Ni fydd y canlyniadau a ddaw o ystyried y materion yn 2.2 a 2.3 will yn cynnig casgliad terfynol i'r gweithiwr o ran gwneud cais i weithio gartref. Fodd bynnag, drwy ystyried y materion byddwch yn gallu nodi unrhyw faes sy'n broblem a allai rwystro gweithio gartref a chael datrysiadau ymarferol iddynt lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a hynny cyn gwneud cais.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Adran 3: Gwneud i'r trefniant gweithio gartref lwyddo

Cyfrifoldebau'r sawl sy'n gweithio gartref

3.1 Os cytunir ar gais i weithio gartref, mae'r gofynion arferol ar y staff sy'n gweithio mewn swyddfa yr un mor berthnasol i'r sawl sy'n gweithio gartref (heblaw am fod yn y swyddfa). Fodd bynnag, oherwydd natur benodol y gwaith, mae rhai gweithgareddau sy'n fwy arwyddocaol os yw trefniadau gweithio gartref i lwyddo. Er mwyn i drefniadau cyffelyb weithio'n effeithiol, dylai rhai sy'n gweithio gartref:

i ddefnyddio'r adnoddau (gan gynnwys y ddarpariaeth TGCh) sydd ar gael iddynt er mwyn eu galluogi i weithio gartref yn effeithiol ac effeithlon;
ii gweithio yn unol â systemau a gweithdrefnau Estyn e.e. sicrhau bod data'n cael gosod yn gywir yn Athene ac yn cael eu defnyddio i lywio dyfarniadau, penderfyniadau ac argymhellion polisi arolygu, lle bo'n briodol;
iii cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch yn flynyddol; a
iv dwyn unrhyw anawsterau ynglŷn â chynnydd gwaith at sylw'r rheolwr llinell cyn gynted ag y bo modd.

3.2 Yn ogystal, mae gan y sawl sy'n gweithio gartref gyfrifoldeb i gynorthwyo Estyn i ddatblygu fel sefydliad ynghyd â chyfrifoldeb i ddatblygu ef/hi ei hun. Bydd disgwyl i'r sawl sy'n gweithio gartref gyfrannu'n fodlon at agenda newid y sefydliad drwy gydweithredu ag unrhyw geisiadau rhesymol gan ei reolwr llinell ef/ei rheolwr llinell hi, neu unrhyw un arall yn Estyn, a chymryd rhan yn union ac yn unol â'r hyn sy'n ofynnol, mewn:

i cyfarfodydd rheolaidd gyda'i reolwr llinell ef/ei rheolwr llinell hi er mwyn derbyn adborth a thrafod cynnydd go gyfer â'r amcanion ac ati fel rhan o system rheoli perfformiad Estyn;
ii cyfarfodydd tîm;
iii sesiynau hyfforddiant (unigol neu gorfforaethol);
iv adolygiadau gwerthuso;
v cyfarfodydd busnes gyda'u rheolwyr llinell ac eraill yn Estyn; a
vi chynadleddau blynyddol.

Cyfrifoldebau rheolwyr llinell

3.3 Tra bo disgwyl i'r sawl sy'n gweithio gartref ysgogi ei hun yn bennaf gan weithio dan yr oruchwyliaeth leiaf bosibl, y rheolwr llinell sy'n cadw'r cyfrifoldeb am eu goruchwylio a'r rheolaeth o ddydd i ddydd. Felly, dylai rheolwyr llinell:

i sicrhau bod y sawl sy'n gweithio gartref yn glir ynglŷn â'i gyfrifoldebau ef/ ei chyfrifoldebau hi a blaenoriaethau'r gwaith ac yn derbyn y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd priodol i alluogi'r sawl sy'n gweithio gartref i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon;
ii trafod perfformiad y sawl sy'n gweithio gartref gydag ef/hi yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn derbyn adborth mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar adegau rheolaidd;

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

iii trafod effeithiolrwydd y trefniadau gweithio gartref fel rhan o'r adolygu perfformiad blynyddol;
iv sicrhau bod gan y sawl sy'n gweithio gartref yr un cyfle â gweithwyr yn y swyddfa i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddiant a datblygu; ac
v adolygu asesiad risg gweithio gartref, gan sicrhau bod unrhyw broblem a nodwyd yn cael eu trafod a bod y sawl sy'n gweithio gartref yn mynd i'r afael ag unrhyw waith adferol, cyn anfon yr asesiad risg ymlaen at Swyddog Iechyd a Diogelwch Estyn;
vi hysbysu'r sawl sy'n gweithio gartref ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau perthnasol yn Estyn sydd heb eu hanfon at yr unigolyn drwy unrhyw fodd arall (e.e. drwy faterion gwaith)

Asesu risg

3.4 Mae'n gyfrifoldeb ar Estyn, cyn belled ag yw'n ymarferol o fewn rheswm, i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles staff, lle bynnag maent yn gweithio. Er mwyn cynorthwyo i reoli risgiau iechyd a diogelwch penodol y sawl sy'n gweithio gartref, bydd yr asesiadau risg gweithio gartref fel rheol yn cael eu cynnal drwy ffurflen hunanasesiad, sydd i'w llenwi'n flynyddol gan y sawl sy'n gweithio gartref. Mae'r arweiniad ar lenwi hunanasesiadau ar gael ym Materion Gwaith 79/06. Fodd bynnag, wrth wneud cais i weithio gartref, mae'r ymgeisydd yn rhoi awdurdod i Estyn gynnal asesiad risg o'r amodau gwaith yn y cartref.

3.5 Os yw'r asesiad risg sy'n cael ei gynnal gan y sawl sy'n gweithio gartref neu gan Estyn yn canfod meysydd sy'n achosi pryder o ran iechyd a diogelwch y sawl sy'n gweithio gartref, bydd Swyddog Iechyd a Diogelwch Estyn (fel y sawl sy'n "gymwys" o yn nehongliad y ddeddfwriaeth berthnasol) ynghyd â'r rheolwr llinell yn adolygu a yw'n bosibl i'r unigolyn barhau i weithio gartref. Os, ym marn y rheolwr llinell a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, na ddylai unigolyn barhau i weithio gartref, bydd y rheolwr llinell yn ysgrifennu at yr unigolyn i esbonio y byddant yn disgwyl iddo ef /hi weithio o un o Swyddfeydd Estyn, naill ai'n barhaol neu dros dro nes iddynt ddileu'r risgiau a nodwyd. Bydd dileu'r risgiau iechyd a diogelwch o amodau gwaith unigolyn yn ei gartref/chartref ei hun a'r gost o wneud hynny yn gyfrifoldeb i'r gweithwyr.

3.6 Os cytunir â chais gweithio gartref, mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio gartref sicrhau bod pob gofal rhesymol yn cael i gymryd i sicrhau ei fod ef/hi yn gweithio mewn amgylchedd gwaith diogel ac mewn safle cysurus ac ergonomig a'u bod yn cymryd egwyl er mwyn osgoi blinder neu niwed dianghenraid.

Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch y sawl sy'n gweithio gartref

3.7 Mae gan y sawl sy'n gweithio gartref yr un dyletswyddau dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 â'r holl staff sy'n gweithio i Estyn. Mae'n rhaid iddynt ofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ag unrhyw un arall a allai gael ei effeithio gan eu gweithredoedd a chydweithredu ag Estyn ar faterion iechyd a diogelwch.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diogelwch personol

3.7 Ni ddylai'r sawl sy'n gweithio gartref wahodd unrhyw un ar wahân i weithiwr Estyn i gyfarfod busnes yn y cartref dan unrhyw amod. Yn yr un modd, ni ddylai'r sawl sy'n gweithio gartref ddweud wrth bobl sy'n gweithio y tu allan i Estyn ei fod ef/hi yn gweithio gartref na bod rhif y busnes wedi ei leoli yn eu cartref.

Damweiniau, anafiadau, salwch a digwyddiadau bron â digwydd

3.8 Os digwyddir damwain, anaf, salwch neu ddigwyddiad bron â digwydd wrth weithio gartref, mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio gartref roi gwybod i'w reolwr llinell/rheolwr llinell cyn gynted ag yw'n ymarferol o fewn rheswm. Yn ogystal, dylai ef /hi roi gwybod i Swyddog Iechyd a Diogelwch Estyn yn y tîm Adnoddau Dynol gan sicrhau y dilynir y weithdrefn briodol ar gyfer adrodd a chofnodi materion o'r fath.

3.9 Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y materion hyn, os methir cydymffurfio â'r darpariaethau iechyd a diogelwch mae'n bosibl y bydd y trefniant gweithio gartref yn cael ei dynnu yn ôl, ac o bosibl, mewn achosion lle ceir torri difrifol o'r canllawiau iechyd a diogelwch, gall camau disgyblu ddilyn.

Cymorth cyntaf

3.10 Bydd Estyn yn sicrhau bod cyflenwadau cymorth cyntaf digonol ar gael i'r sawl sy'n gweithio gartref. Cyfrifoldeb y sawl sy'n gweithio gartref yw sicrhau bod y blwch cymorth cyntaf a roddir iddo/iddi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer lles y sawl sy'n gweithio gartref yn unig a'i fod yn cael ei adnewyddu ar adegau priodol.

Mynychu cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddi

3.11 Cyn belled ag sy'n bosibl, dylai'r sawl sy'n gweithio gartref gytuno â'u rheolwr llinell, cyn i'r trefniadau gweithio gartref gael eu penderfynu yn derfynol, ar y nifer o ymweliadau sydd angen eu gwneud i'r swyddfa ar gyfer cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd gwerthuso ac ati.

3.12 Pan ofynnir iddynt fynychu cyfarfodydd/digwyddiadau hyfforddi ac ati yn swyddfeydd Estyn, bydd gan y sawl sy'n gweithio gartref yr hawl i wneud cais am gostau teithio a chynhaliaeth yn unol â pholisi Teithio a Chynhaliaeth Estyn.

Oriau gwaith

3.13 Oni bai bod y sawl sy'n gweithio gartref yn defnyddio darpariaethau gweithio hyblyg eraill e.e. gweithio rhan amser, ac yn yr achos hwnnw byddai trefniadau pwrpasol yn cael eu cytuno, bydd gan y sawl sy'n gweithio gartref yr un oriau gwaith cytundebol â'r rhai hynny sy'n gweithio yn swyddfeydd Estyn (42 awr fel rheol gan gynnwys egwyliau bwyd dros gyfnod o pum diwrnod mewn wythnos waith. Er mwyn sicrhau bod rheolwyr a staff ar gael ar gyfer ei gilydd ar adegau rheolaidd yn ystod y diwrnod gwaith, pan nad ydynt allan ar waith swyddogol arall dylai'r rhai sy'n gweithio gartref wneud yn siŵr eu bod o fewn cyrraedd yn ystod yr oriau craidd canlynol: 10.00 - 12.00 a 14.00 - 15.30. Y tu allan i'r oriau craidd, mae gan staff rywfaint o hawl i

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

ddewis yr oriau maent yn cwblhau eu gwaith, ond er mwyn cynorthwyo Estyn i fodloni ei ddyletswydd ynghylch y Cyfarwyddyd Oriau Gwaith fel arfer, bydd disgwyl i'r sawl sy'n gweithio gartref gyflawni eu horiau gwaith cytunedig rhwng 07:30 a 19:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid oes disgwyl i'r sawl sy'n gweithio gartref weithio'n rheolaidd y tu hwnt i'w horiau cytunedig, ac ni ddylent wneud hynny. Yn ogystal, dylent sicrhau eu bod yn cymryd o leiaf hanner awr o egwyl os ydynt yn gweithio dros 6 awr ar unrhyw un adeg benodol.

3.14 Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd y sawl sy'n gweithio gartref yn ymgymryd â gwaith ychwanegol y tu allan i'r oriau gwaith arferol, er enghraifft:

i ymweld â chlwb ieuenctid tra'n ei arolygu, neu
ii os, ar ôl ceisio a chael cytundeb eu rheolwr llinell, maent yn dewis ymgymryd â gwaith swyddfa oherwydd rhesymau domestig neu arall.

3.15 Yn ogystal, gall y sawl sy'n gweithio gartref weithio y tu allan i oriau gwaith arferol, am resymau domestig er enghraifft, gyda chymeradwyaeth eu rheolwr llinell o flaen llaw. Byddai gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol yn cael ei gymeradwyo dan amodau eithriadol yn unig, gan y gallai gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol yn rheolaidd arwain at y sawl sy'n gweithio gartref:

i fethu â chyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion Estyn;
ii ddim ar gael pan mae angen iddo/iddi weithio;
iii ynysu ei hun yn gymdeithasol ac yn broffesiynol;
iv colli cyswllt rheolaidd â'i reolwr llinell/rheolwr llinell, a
v cholli'r cyfle i gael tasgau ar rybudd byr a fyddai o bosibl yn ei helpu ef/hi i ddatblygu neu sydd yn angenrheidiol o ran gwaith boddhaol gan y tîm.

3.16 Er mwyn hwyluso cynllunio a monitro effeithiol a chynorthwyo Estyn i fodloni ei ddyletswyddau dan y Rheoliadau Amser Gwaith, dylai'r sawl sy'n gweithio gartref sicrhau eu bod yn cofnodi'r amser buont yn gweithio ar dasgau penodol yn rheolaidd ac yn gywir ar system gynllunio Estyn.

Cysylltu â'r sawl sy'n gweithio gartref

3.17 Dylai'r sawl sy'n gweithio gartref sicrhau cytundeb rhyngddo ef/hi a'i reolwr/rheolwr llinell ynglŷn â sut a phryd y gellir cysylltu. Wrth wneud y trefniadau hyn mae'n rhaid i'r rheolwr llinell sicrhau ei fod ef /hi yn gallu cysylltu â'r sawl sy'n gweithio gartref yn ystod y diwrnod gwaith er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i'r sawl sy'n gweithio gartref neu i gyflogaeth (gweler paragraff 3.14). Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd cyfnodau pan fydd angen cysylltu â'r sawl sy'n gweithio gartref y tu allan i'r oriau hyn am resymau dilyniant busnes.

3.18 Er mwyn sicrhau y gellir cynnal cyswllt rheolaidd gyda'r sawl sy'n gweithio gartref, dylai ef/hi wneud yn siŵr bod ei galendr/ei chalendr Outlook yn agored i holl staff Estyn.

3.19 Dylid rhoi manylion cyswllt llawn yn y calendr a'u diweddaru'n ddyddiol er mwyn sicrhau y gellir cysylltu â'r sawl sy'n gweithio gartref yn rhwydd petai'r galw'n codi. Yn ogystal, mae'n arfer da hefyd o safbwynt iechyd a diogelwch Estyn i wybod am leoliad y sawl sy'n gweithio gartref.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

3.20 Y manylion cyswllt y dylech eu darparu yw:

i enw a chyfeiriad y lleoedd rydych yn ymweld â hwy; a
ii rhif cyswllt ffôn ar gyfer y lle neu'r person rydych yn ymweld ag ef/hi

3.21 Dylai'r sawl sy'n gweithio gartref ddefnyddio'r offer a ddarparwyd fel nad yw galwadau sy'n ymwneud â gwaith yn cael eu derbyn neu eu trafod y tu allan i'r oriau gwaith arferol e.e. neges llais/ffôn ateb.

3.22 Fel rheol, gall y sawl sy'n gweithio gartref ddisgwyl nad yw'n derbyn galwadau ar rif ffôn preifat y tŷ, ond dan amgylchiadau eithriadol e.e. pan mae'r sawl sy'n gweithio gartref yn absennol oherwydd salwch neu y tu allan i oriau arferol mewn achos brys neu nid yw ar gael ar unrhyw rif arall, mae'n bosibl y cysylltir ag ef/hi ar y rhif preifat gartref. Felly, dylai'r sawl sy'n gweithio gartref sicrhau bod Estyn yn ymwybodol o'r rhif ffôn preifat gartref ac yn deall y gallai ef/hi dderbyn galwad gan Estyn.

Llinellau ffôn

3.23 Bydd llinell ffôn busnes yn cael ei ddarparu ar gyfer y sawl sy'n gweithio gartref, ar gyfer gwaith Estyn yn unig. Bydd Estyn yn talu am y gost gychwynnol o roi'r llinell yn ei lle ac am wneud galwadau swyddogol. Os bydd y sawl sy'n gweithio gartref yn adleoli neu'n ymestyn y llinell yn y tŷ; neu'n symud tŷ disgwylir iddo ef/iddi hi dalu am unrhyw gostau.

3.24 Y rheolwr llinell fydd yn gyfrifol am awdurdodi'r tîm TGCh i osod llinell fusnes ar ôl llofnodi'r cytundeb gweithio gartref. Bydd y sawl sy'n gweithio gartref yn cysylltu â'r tîm TGCh er mwyn trefnu mynediad i'w gosod.

Diogelwch ac offer TGCh

3.25 Dylai'r sawl sy'n gweithio gartref sicrhau ei fod ef/hi yn deall ac yn cydymffurfio a'i gyfrifoldebau ef/chyfrifoldebau hi dan bolisïau Estyn, gan gynnwys y rheiny sy'n berthnasol i ddefnyddio offer TGCh (polisi Estyn ar Ddiogelwch System TGCh) yn enwedig mewn perthynas â defnyddio'r rhyngrwyd a'r e-bost.

3.26 Ni ddylid cadw ffeiliau swyddogol Estyn na phapurau a dogfennau eraill yn y cartref am fwy o amser na sy'n hollol angenrheidiol. Dylid dychwelyd dogfennau cyffelyb i'r gweithle gan y sawl sy'n gweithio gartref cyn gynted ag y maent wedi gorffen â nhw fel y gellir eu storio neu eu gwaredu yn unol â chanllawiau Estyn. Dylid cymryd ffeiliau cofrestredig allan o swyddfeydd Estyn pan fo eu hangen yn unig. Lle mae ffeiliau'n cael eu cymryd allan o'r swyddfa, dylid rhoi gwybod i Glerc Cofrestrfa Estyn o flaen llaw enw'r sawl sy'n cymryd y ffeil a'r dyddiad y bydd yn cael ei chymryd. Dylid dychwelyd ffeiliau cofrestredig i Gofrestrfa Estyn cyn gynted ag y mae'r sawl sy'n gweithio gartref wedi gorffen â nhw.

3.27 Dylid cadw mewn lle diogel offer gweithio gartref a gafodd eu darparu gan Estyn, er enghraifft ni ddylid cadw gliniadur mewn lle y gellir ei weld drwy ffenestr. Ar ôl eu defnyddio dylid rhoi ffeiliau, dogfennau a phapurau eraill dan glo yn y cwpwrdd ffeilio sydd â chlo iddo ac a gafodd ei ddarparu gan Estyn, gan sicrhau nad oes gan y teulu na ffrindiau nag ymwelwyr fynediad atynt. Yn ogystal, dylid cadw gwastraff

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

cyfrinachol yn y cwpwrdd ffeilio dan glo, a dylid ei gludo i swyddfa Estyn er mwyn ei waredu ar adeg gyfleus ac ni ddylid ei roi allan gyda'r gwastraff tŷ i'w gasglu drwy gasgliadau/trefniadau gwaredu gwastraff tŷ.

3.28 Lle y darperir offer mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio gartref:

i gymryd gofal rhesymol ohono;
ii cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod offer sy'n llai o ran eu maint yn cael eu cadw'n ddiogel ac wedi eu rhoi dan glo ac allan o'r golwg pan nad ydynt yn cael eu defnyddio;
iii eu defnyddio at bwrpasau swyddogol yn unig gan ei bod yn bosibl iddynt gael eu hystyried yn fuddion mewn nwyddau gan adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac felly'n destun treth incwm;
iv eu defnyddio'n unol â'r cyfarwyddiadau i'w gweithredu;
v cytuno ag unrhyw drefniadau ar gyfer prawf PAT ar offer trydanol ar adegau rheolaidd naill ai yn swyddfeydd Estyn neu yn y cartref; a'u
vi dychwelyd yn gweithio'n iawn ac mewn cyflwr da i Estyn yn unol â'i gais.

3.29 Tra y byddai'n arferol i'r sawl sy'n gweithio gartref ddod â'r offer i swyddfeydd Estyn ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chefnogaeth, dan amodau eithriadol gall fod yn angenrheidiol i Estyn gael mynediad i'r offer swyddfa yn y cartref ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac i ddiweddaru rhaglenni meddalwedd ac ati. Bydd disgwyl i'r sawl sy'n gweithio gartref gytuno â threfniadau o'r fath gydag Estyn o flaen llaw fel bo'r galw ac fel rhan o'r cytundeb gweithio gartref.

Darparu dodrefn ac offer arall

3.30 Bydd Estyn yn darparu ac yn cynnal a chadw offer addas ar gyfer galluogi'r sawl sy'n gweithio gartref i weithio'n effeithiol ac effeithlon. Bydd yr offer a ddarperir yn eiddo i Estyn gydol yr amser a bydd Estyn yn darparu eitemau newydd yn eu lle yn unol â'r draul arferol a ddaw o'u defnyddio. O ganlyniad diffyg gofalu digonol er mwyn sicrhau gofal a diogelwch yr offer a ddarparwyd, mae'n bosibl y bydd y gweithiwr yn gyfrifol am gost offer newydd ac, yn y pen draw, gamau disgyblu. Yr offer a fydd yn cael eu darparu yw:

i offer cyfrifiadurol (gliniadur, bysellfwrdd, llygoden, sgrin VDU, argraffydd, sganiwr neu fodem);
ii llinell ffôn busnes briodol;
iii ffôn/ffacs/peiriant ateb;
iv ffôn symudol a'r offer perthnasol;
v cwpwrdd ffeilio dan glo; a
vi pheiriant rhwygo ar gyfer gwastraff cyfrinachol

Anghenion nwyddau swyddfa

3.31 Dylid diwallu anghenion argraffydd neu ddeunydd ysgrifennu drwy osod archeb gyda thîm Adeiladu Estyn a byddant yn dod o stoc y swyddfa.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Offer trydanol yn y tŷ ac offer arall

3.32 Cyfrifoldeb y sawl sy'n gweithio gartref yw gwaith cynnal a chadw socedau trydan a rhannau eraill o'r system drydanol yn y cartref.

Yswiriant

3.33 Ni ddylai gweithio gartref effeithio ar bolisïau yswiriant cynnwys adeilad a chartref perchennog y tŷ, ond mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio gartref roi gwybod i'w yswirwyr yn ysgrifenedig eu bod yn bwriadu gweithio gartref cyn dechrau gweithio gartref.

Cytundebau morgais a thenantiaid

3.34 Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio gartref roi gwybod i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr eiddo e.e. eu cwmni adeiladu, y banc neu landlord mewn ysgrifen eu bod yn bwriadu gweithio gartref.

Treth y cyngor, ardrethi busnes a threth enillion cyfalaf

3.35 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid o ran treth cyngor yr unigolyn na unrhyw gyfrifoldeb o ran ardrethi busnes neu dreth enillion cyfalaf o ganlyniad i weithio gartref, gan na fydd ef/hi yn rhedeg busnes o gartref a bod ochr fusnes y tŷ'n isradd i'w ddefnydd fel cartref e.e. ardal waith mewn ystafell wely sbâr neu yn yr ystafell fyw. Fodd bynnag, os oes gan y sawl sy'n gobeithio gweithio gartref unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyfrifoldebau yn y dyfodol dylai holi'r adran briodol yn y Cyngor/Llywodraeth cyn cyflwyno cais gweithio gartref.

3.36 Bydd angen i'r rhai sy'n bwriadu gweithio gartref gadarnhau ar eu ffurflen gais eu bod wedi anfon y rhybuddion priodol mewn llythyr (a lle bo'n briodol wedi derbyn cytundebau) at ei landlord ef/hi/darparwr morgais/darparwyr yswiriant cynnwys cartref/yr awdurdod lleol/ac unrhyw asiantaeth neu awdurdod perthnasol arall am ei fwriad ef/hi i weithio gartref ac nad yw ef/hi wedi derbyn unrhyw ateb gwrthwynebus i'r ohebiaeth hon.

3.37 Ni fydd Estyn yn cwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol, ardrethi na threthi sy'n deillio o drefniant gweithio gartref; na derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw niwed, colled, costau ychwanegol neu achos cyfreithiol a ddaw i ran y sawl sy'n gweithio gartref o ganlyniad i fethu â chael y caniatâd angenrheidiol gan eu hyswirwyr, benthyciwr morgais, landlord neu awdurdod lleol, neu unrhyw asiantaeth berthnasol arall.

Gwyliau blynyddol

3.38 Rhaid cytuno gyda'r rheolwr llinell o flaen llaw wrth gyflwyno cais am wyliau blynyddol yn unol â'r weithdrefn arferol.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Absenoldeb salwch

3.39 Mae'r sawl sy'n gweithio gartref yn ddarostyngedig i amodau absenoldeb salwch arferol Estyn. Os yw'r sawl sy'n gweithio gartref yn methu â gweithio dylai ef/hi gysylltu â'u rheolwr llinell ar ddiwrnod cyntaf eu salwch gan ymatal rhag gweithio - gweler Polisi Rheoli Presenoldeb Estyn am y manylion.

Trefniadau gofal

3.40 Os oes gan y sawl sy'n gweithio gartref unrhyw gyfrifoldebau gofal, rhaid cadw'r rhain ar wahân i'r trefniadau gwaith. Rhaid iddo ef/iddi hi sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle ar gyfer y rhai sy'n ddibynnol arnynt sydd gartref o bosibl yn ystod oriau gwaith.

3.41 Fel rhan o'r trefniant gweithio gartref, bydd y sawl sy'n gweithio gartref yn ysgrifennu datganiad sy'n amlinellu'r cynlluniau sydd ganddo/ganddi ar gyfer unrhyw berson dibynnol a dylid cytuno ar hyn gyda'r rheolwyr llinell cyn y gall gweithio gartref gychwyn.

Symud tŷ

3.42 Os yw'r sawl sy'n gweithio gartref yn bwriadu symud tŷ, dylai ef/hi roi gwybod i'w reolwr/rheolwr llinell a'r tîm Adnoddau Dynol am y newid sydd i'w ddisgwyl gan roi'r dyddiad y bydd hyn yn weithredol. Mae'r sawl sy'n gweithio gartref yn gyfrifol am drefnu trosglwyddo offer Estyn mewn modd diogel ac ailosod y llinellau ffôn ac am ailgyflwyno asesiadau risg, a llenwi'r gwiriadau a amlinellwyd ym mharagraff 3.37.

3.43 Ni fydd trefniant gweithio gartref yn dod i ben yn unig oherwydd bod y sawl sy'n gweithio gartref yn symud tŷ. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar leoliad y cartref newydd, efallai bydd Estyn am edrych dros y lle (ar ôl cyfnod rhesymol o amser) er mwyn asesu a all y gweithio gartref barhau. Wrth asesu effaith lleoliad y cartref newydd, bydd Estyn yn ystyried yr effaith mae'n ei gael ar gyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ac unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth ychwanegol a fydd.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE